# Ysgol Morfa Nefyn

## POLISI GWRTHFWLIO

### Hawliau

Dylai pob plentyn fod â'r hawl i dderbyn ei addysg yn rhydd o ddarostyngiad, gormes a sarhad. Mae pob person sydd yn rhan o gymuned Ysgol Llanbedrog gyda chyfrifoldeb i weithredu er mwyn gofalu am ei gilydd.

Nid yw'r ysgol yn goddef bwlio ar unrhyw ffurf ac fe gymerir camau pendant i geisio sicrhau na fydd yr un plentyn dan ein gofal yn gorfod dioddef effeithiau bwlio. Rhoddir pwyslais ar awyrgylch hapus, glos gyda'r disgyblion yn cyd-fyw mewn cymdeithas gartrefol. Anelir tuag at hyrwyddo hunan-barch a chyfleoedd cyfartal i bob disgybl ymhob agwedd o fywyd ysgol.

### Diffinio Bwlio

1. Fe all bwlio barhau dros hir amser Camddefnydd cyson bwriadol o rym a all arwain at loes corfforol, feddyliol neu emosiynol yw bwlio.

2. Gall unigolion neu grŵp fod yn gyfrifol.

3. Gall bwlio fod yn gorfforol, llafar neu seicolegol e.e. tynnu gwallt, dynwared, gwthio pobl, cicio, taro, difrodi eiddo, edliw pethau cas am deulu, dillad neu ymddangosiad, galw enwau, lledaenu straeon.

4. Nid yw ymladdfa neu anghydweld achlysurol rhwng dau berson o angenrheidrwydd yn fwlio.

### Diffinio Plant o Beth yw Bwli

1. Bwli yw person sy'n gwneud bywyd yn anodd i eraill drwy bigo arnynt yn fwriadol a heb reswm.

2. Mae'n digwydd nid unwaith neu ddwy ond laweroedd o weithiau.

3. Fe all fod yn ddyrnu, cicio, tynnu gwallt, neu weithredoedd eraill sy'n anafu'r corff.

4. Fe all fod yn ledaenu straeon, galw enwau, neu fygythiadau sy'n rhoi loes mewnol i chi gan eich gwneud yn ofnus. Mae bwlio yn beth cas iawn.

5. Gall pobl gael eu hanafu pan fydd bwli o gwmpas.

Yn nhermau'r ysgol hon, credir fod bwlio yn amharu ar ethos yr ysgol, ac felly yn groes i bopeth yr ydym yn gweithio tuag ato.

**Adnabod y Bwli**
Nid yw'n hawdd bob amser i adnabod disgyblion sy'n bwlio. Gallant fod yn:

- amhoblogaidd
- ansicr
- yn wannach neu'n well na'u cyfoedion
- gweithreda rhai bwlis yn unigol tra bydd rhai yn perswadio eraill i ymuno.
-

**Adnabod Dioddefwyr Tebygol**
Mae pob plentyn sydd yn yr ysgol gyda'r potensial i fod yn ddioddefwr o fwlio. Bydd bwlis yn pigo ar blant sydd yn hawdd eu niweidio, ond nid yw'r elfen hon bob amser yn amlwg i oedolion.

## Gweithredu ar fwlio

Mae'n holl bwysig cofnodi pob digwyddiad neu sgwrs gyda'r plant.

1. Anogir y plentyn i rannu ei bryderon mewn ffordd gyfrinachol.

2. Bydd athro/athrawes yn gwerthuso pob achos ac yna'n adrodd yn ôl i weddill y staff.

3. Os penderfynir mai gweithred achos unigol ydyw yna rhaid ei gofnodi fel achos o'r fath ac ni weithredir ymhellach.

4. Mewn achos o fwlio – sgwrsio gyda'r ddwy ochr yn unigol a chael sgwrs gyffredinol gydag eraill.

5. Os oes achos o fwlio yna rhaid rhybuddio'r bwli nad yw'r peth yn cael ei ganiatau yn yr ysgol ac y gweithredir ymhellach os cyfyd achos arall.

6. Os digwydd ail achos gan yr un bwli rhaid ailadrodd camau 1 – 4 ac os yn briodol cysylltu â'r rhieni a llunio cytundeb ymddygiad.

7. Os bydd y bwlio yn parhau ac yn effeithio'n arw ar addysg neu les y dioddefwr rhaid ailadrodd camau 1 – 6 a gofyn am gymorth gan asiantaethau allanol e.e. swyddog lles, athrawes cynnal ymddygiad. Rhaid hefyd rhoi gwybod i Gadeirydd y Corff Llywodraethol.

8. Fe all achosion o fwlio cyson gan yr un plentyn arwain at eithrio dros gyfnod penodol. Mewn achos o'r fath rhaid galw cyfarfod o'r Corff Llywodraethol.

## Sut mae'r ysgol yn gweithredu i atal bwlio?

1. Fe ystyrir yr ysgol hon fel cymuned neu gymdeithas o blant ac oedolion. Fe hyrwyddir yr ymdeimlad o gyd-weithio a chyd-garu ein gilydd. Mewn cymdeithas o'r fath fe ystyrir unrhyw achos o fwlio yn ymddygiad anghymdeithasol ac yn groes i reolau ac ethos y gymuned honno.

2. Mae staff yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i sefydlu perthynas athro-plentyn iach, perthynas sy'n sensitif ac yn meithrin a datblygu hunan-

barch. Hoffem gredu bod pob aelod o staff mewn sefyllfa i fod yn 'wrandawyr' sensitif y gall unrhyw blentyn ymddiried ynddynt.

3. Dylai ' bwlio ' fod yn un o'r agweddau pwysicaf wrth ymdrin â materion moesol. O'r herwydd dylid cyfeirio at fwlio yn rheolaidd ac nid dim ond pan gyfyd y broblem. Dylid gwneud hyn drwy sgyrsiau ffurfiol ac anffurfiol ar lefel dosbarth ac ysgol. Dylai'r plant gael cyfle i fynegi eu teimladau a'u barn ynglyn â'r mater ac i ddod ag unrhyw broblem i'r wyneb heb ofidio. Ymdrinir gyda bwlio mewn gwersi ABCh, sesiynau Amser Cylch, yn y Cyngor Ysgol ac yn y Gwasanaethau. Byddwn yn:

    - Addysgu'r plant i weithio a chyd-chwarae;
    - Addysgu am achos a chanlyniad, cyfiawnder a chyfrifoldeb;
    - Addysgu'r plant nad yw ymddiheuro yn arwydd o wendid;
    - Addysgu'r plant i holi eu hunain ynglyn a'u hymddygiad i edrych a ydyw yn bryfoclyd.

4. Ers 2005 mae'r ysgol wedi derbyn hyfforddiant ar egwyddorion ac arferion addysgu Webster Stratton. Mae'r egwyddorion yma yn ymgorffori ei hun ym nhrefn atal bwlio'r ysgol, mae'n canmol rhagoriaethau ac yn diddymu ymddygiad anghymdeithasol.

5. Atgoffir y plant o gynnwys y polisi yn gyson.

6. Goruchwylir y plant yn ystod amseroedd chwarae a bydd staff yn cadw llygad i ganfod rhai plant all fod yn dargedau ar gyfer gormes bwli.

7. Byddwn yn barod i ymyrryd lle bynnag y bydd hynny'n bosibl e.e.

    - Achub cyfle i addysgu a dysgu parchu / sut i ymddwyn pan gyfyd ffrwgwd.
    - Cymeryd camau eglur a phwrpasol, bod yn ddyfal a chyson, rhannu cyfrifoldebau a chyflwyno neges glir o beth yw ein gweledigaeth.
    - Achub pob cyfle i wobrwyo ymddygiad cydweithredol.

8. Ers sefydlu'r Cyngor Ysgol mae llais y plentyn yn cael lle blaenllaw yn y drefn atal bwlio. Byddwn yn canfod safbwyntiau'r disgyblion drwy'r Cyngor Ysgol a bydd cyfle i aelodau'r Cyngor roi mewnbwn i'n Polisi.

9. Bydd blwch ymhob dosbarth - cyfle i blentyn fynegi pryder- cyfrinachedd rhyngddo/rhyngddi â'r athro/athrawes.

10. Byddwn yn cynnal diwrnodau codi ymwybydiaeth o fwlio- o leiaf unwaith y tymor.

11. Mae'r ysgol wedi sefydlu system 'Bydis Buarth' sy'n monitro'r iard ar amser chwarae. Gall disgyblion hysbysu'r 'Bydis Buarth os ydynt hwy, neu os yw un o'u ffrindiau yn cael eu bwlio;

**GOBLYGIADAU I'R RHIENI**
Dylai'r rhieni:

- gysylltu â'r ysgol os y byddant yn gwybod neu'n amau fod bwlio'n digwydd;
- annog plant i BEIDIO bod yn ymosodol tuag at blant eraill;
- gefnogi'r ysgol os y bydd angen gweithredu pellach.

**GOBLYGIADAU I'R DISGYBLION**
Dylai'r disgyblion:

- ymddiried y gwnaiff y staff weithredu os y bydd plant yn cael eu bwlio;
- fod yn ymwybodol o wobrwyon a chyfyngiadau/cosb, a deall fod canlyniadau i bob gweithred;
- hysbysu'r staff neu'r 'Bydis Buarth' os ydynt hwy, neu os yw un o'u ffrindiau yn cael eu bwlio;
- beidio sefyll o'r neilltu a gwneud dim neu chwerthin pan welant fod bwlio'n digwydd;
- geisio helpu a bod yn garedig i eraill bob amser;
- dderbyn eu cyfyngiadau/cost os y delir hwy yn bwlio;
- sylweddoli eu rôl hwy wrth atal bwlio yn yr Ysgol.

**GOBLYGIADAU I'R LLYWODRAETHWYR**

Dylai'r Llywodraethwyr:

- wneud yn siwr eu bod yn deall ac yn gyfarwydd â'r polisi sy'n ceisio atal gormes y bwli;
- gefnogi'r staff i weithredu'r polisi;
- chwarae rhan weithredol yn y gwaith o adolygu a chynnal y polisi.

**GOBLYGIADAU I'R STAFF ADDYSGU**

Dylai aelodau'r staff addysgol:

- fod yn barod i ganfod amser i wrando ar blant, gan gymeryd yr hyn a glywant o ddifrif, ac yn y fath fodd fel na fydd y plentyn yn cael ei waradwyddo, a heb achosi embaras; h.y. trwy sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd.
- edrych am enghreifftiau o ymddygiad treisgar, a bod yn ymwybodol o'r mannau hynny yn yr ysgol lle gall hynny ddigwydd. Dylid darparu cyfleoedd rheolaidd i blant fedru siarad am ormes y bwli;
- gynnwys addysgu am ymddygiad positif fel rhan o'u cwricwlwm addysgol;
- weithredu system o wobrwyo a chyfygiadau/cosb mor fuan ag sy'n bosibl;
- gydnabod fod athrawon weithiau angen cymorth, ac i geisio hynny pan fo hynny'n addas;

- archwilio eu hymddygiad eu hunain i sicrhau nad ydynt yn euog o fwlio plant, cyd-weithwyr neu rieni;
- annog y syniad o gyfrifoldeb cyfun dros berchnogaeth y broblem.

**GOBLYGIADAU I'R STAFF GORUCHWYLIO CANOL DYDD**

Dylai'r goruchwylwyr hyn:

- fod yn barod i ganfod amser i wrando ar blant, a chymryd yr hyn a ddywedant o ddifrif, a hynny mewn ffordd na fydd yn eu gwaradwyddo nac yn peri embaras; h.y. trwy sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd;
- gynnal y polisi o wobrwyo a chyfygiadau/cosb drwy chwilio am gyfleoedd i wobrwyo plant am gydweithrediad, ac i beidio bod ofn gweithredu cyfyngiadau/cosb lle bo hynny'n addas, gan wneud hynny mor fuan ag sy'n bosibl wedi'r drosedd;
- ar ddiwedd yr awr ginio, dylid sôn wrth aelod o'r staff addysgu neu'r Pennaeth am bob digwyddiad negyddol a chadarnhaol y tybir y dylid gwneud cofnod ohono;
- sicrhau fod popeth a wneir yn cyfleu'r neges 'Dyw bwlio ddim yn iawn';
- annog y syniad o gyfrifoldeb cyfun dros berchnogaeth y broblem.

**GOBLYGIADAU I REOLAETH YR YSGOL**

Dylai'r Pennaeth:

- sefydlu a chynnal system ddwy ffordd o adrodd yn ôl gyda'r staff sy'n goruchwylio dros yr awr ginio;
- gynnal a monitro cofnod o ormes y bwli;
- gyfathrebu gyda rhieni a chyd-gysylltu gyda llywodraethwyr, rhieni a staff;
- sefydlu polisi o adolygu, a sicrhau nad yw'n mynd yn angof;
- lle bynnag y bo hynny'n bosibl, caniatau i'r athro/athrawes dosbarth ddatrys problemau'n bersonol trwy neilltuo amser iddynt fedru gwneud hynny.

**Adolygwyd :** _____

**Cadeirydd :** _____

**Pennaeth :** _____